Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Penodi Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru

Mai 2025

# 1. Y cefndir

**1.** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. [1]

**2.** Mae Deddf 2013 yn rhoi llawer o gyfrifoldebau i'r Senedd, gan gynnwys penodi pum Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, a gwneud trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol.

**3.** Y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) sy'n gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru. O dan Reolau Sefydlog 18.10(iv), 18.10(v), 18.10(vii) a 18.10(viii)[2], mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau'r Senedd yn ymwneud â phenodi Aelodau Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, a phenderfynu ar eu telerau penodi (gan gynnwys taliadau cydnabyddiaeth).

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[2] Rheolau Sefydlog y Senedd, tudalennau 76-77

# 2. Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru

## Rôl y Pwyllgor Cyllid

**4.** Mae'r gwaith o benodi Aelodau Anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 18.10(v)[3]. Yn unol â Deddf 2013, gellir penodi Aelodau Anweithredol am gyfnod o hyd at bedair blynedd, a gallant wasanaethu am hyd at ddau dymor.[4]

## Y Broses Recriwtio a'r Canlyniad

**5.** Daw ail dymor swydd yr Aelod Anweithredol Alison Gerrard i ben ar 30 Mehefin 2025, gan greu swydd wag ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Cyhoeddwyd hysbyseb ar 31 Ionawr 2025 am swydd Aelod Anweithredol, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 7 Mawrth 2025.

**6.** Hysbysebwyd y rôl drwy ddefnyddio cyhoeddiadau electronig, y cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau personol. Rhoddwyd yr hysbyseb mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys: gwefan y Senedd a ffrydiau cyfryngau cymdeithasol y Pwyllgor Cyllid; gwefan Archwilio Cymru; LinkedIn; Swyddi Cymru; Times online; Sunday Times; Guardian online; Golwg 360; gwefan Cyllid Cyhoeddus; a Women on Boards. Ymarfer recriwtio di-enw oedd hwn, ac roedd pob cais yn ddienw er mwyn osgoi rhagfarn ddiarwybod.

**7.** Daeth 33 o geisiadau i law gan 10 o fenywod a 13 o ddynion, gydag un ymgeisydd yn dewis peidio â dweud a 10 arall heb roi ymateb. Dewiswyd pump o ymgeiswyr i'w cyfweld. Tynnodd un ymgeisydd ei gais yn ôl cyn y cam cyfweliad.

**8.** Cynhaliwyd cyfweliadau ar 1 Mai 2025, lle holwyd ymgeiswyr ynghylch y meini prawf a nodwyd yn y disgrifiad swydd. Dyma aelodau'r panel:

- Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid;
- Dr Ian Rees, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru;

[3] Rheolau Sefydlog y Senedd, tudalen 78
[4] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 6

- Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau, Senedd Cymru.

**9.** Cyn pennu trefniadau cydnabyddiaeth a thelerau penodi eraill ar gyfer Aelodau Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ymgynghori â "pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus".[5] Yn unol â hynny, ymgynghorodd y Pwyllgor â Chyfarwyddwr Pobl a Lleoedd Llywodraeth Cymru, Dom Houlihan, a ymatebodd ar 6 Ionawr 2025 gan gadarnhau ei fod yn fodlon â'r trefniadau cydnabyddiaeth arfaethedig.[6]

**10.** Dewiswyd yr ymgeisydd canlynol i ymgymryd â rôl Aelod Anweithredol am gyfnod o bedair blynedd ar y mwyaf:

**Bethan Jones** – Mae Mrs Jones yn gyn Gyfarwyddwr Ardal ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn Ddirprwy Brif Weithredwr cynghorau Ynys Môn a Chonwy. Mae hi'n dod â dros 25 mlynedd o brofiad Lefel Cyfarwyddwr ar draws ystod o wasanaethau cyhoeddus yng ngogledd Cymru ac mae ganddi brofiad helaeth o weithredu ar lefel y Bwrdd ar draws y gwasanaethau hyn. Dyma benodiad cyntaf Mrs Jones i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi cael cynnig swydd am dymor o 4 blynedd tan 2029.

**Conclusion 1.** Mae'r Pwyllgor wedi penodi Bethan Jones yn Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, o 1 Gorffennaf 2025 tan 30 Mehefin 2029.

[5] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Atodlen 1, paragraff 9(1).
[6] Llythyr gan Gyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ynghylch trefniadau cydnabyddiaeth a thelerau penodi Aelodau Anweithredol, 6 Ionawr 2024